



Yr hyn sydd angen i chi ei wneud i ennill eich Bathodyn Carwch Eich Caerdydd:

1. Cadwch eich gardd ac yn union y tu allan i'ch tŷ yn daclus, ac mor rhydd o sbwriel â phosibl. Os oes gennych chi bigwr sbwriel, a'ch bod yn gallu, beth am geisio cadw eich stryd yn daclus hefyd!
2. Plannwch flodau yn eich gardd flaen. Os nad oes gennych unrhyw beth i'w blannu beth am dynnu llun a'i osod yn eich ffenestr i bobl ei weld.
3. Rhestrwch 5 rheswm pam eich bod yn caru eich cartref!
4. Dysgwch pam fod sbwriela yn ddrwg a'r effaith a gaiff ar y canlynol:

Unigolion
Cymunedau lleol
Yr amgylchedd
Bywyd gwyllt lleol

5. Dysgwch am y gwahanol blanhigion a all fywiogi'r strydoedd. Pa blanhigion sy'n dda ar gyfer:

Lliw
Denu bywyd gwyllt
Bwyta

Gallech hefyd:

- Gadw cofrestr o'r sbwriel ar eich stryd.
- Lluniwch fap o'ch ardal leol yn nodi ardaloedd lle ceir sbwriel a mannau gwyrdd – meddyliwch am yr hyn yr hoffech weld rhagor ohono a sut y gellid gwella'r mannau gwyrdd i wneud lle rydych chi'n byw yn well fyth!
- Dysgwch am yr offer diogelwch sydd ei angen arnoch i gymryd rhan mewn cyrch codi sbwriel a pham fod hynny'n bwysig.
- Dewch i ddysgu am eich grŵp 'Cadw'n Daclus' lleol neu grŵp 'Ffrindiau...' parc lleol. Beth maent yn ei wneud a sut gallech chi gymryd rhan?
- Lluniwch boster i annog pobl i beidio â sbwriela a gadael sbwriel anghyfreithlon. Neu un yn annog pobl i ofalu am lle maen nhw'n byw.